

2025 Rhif (Cy.)

2025 No. (W.)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

ROAD TRAFFIC, WALES

Gorchymyn Cefnffordd yr A477
(Cyffordd Mynegbost Nash, Sir
Benfro) (Cyfyngiad a Gwaharddiad
Traffig Dros Dro) 2025

The A477 Trunk Road (Nash
Fingerpost Junction,
Pembrokeshire) (Temporary Traffic
Restriction & Prohibition) Order
2025

Gwnaed 29 Awst 2025

Yn dod i rym 6 Medi 2025

Made 29 August 2025

Coming into force 6 September 2025

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer cefnffordd yr A477, wedi eu bodloni y dylid cyfyngu ar draffig a/neu ei wahardd ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

The Welsh Ministers, as traffic authority for the A477 trunk road, are satisfied that traffic on specified lengths of the trunk road should be restricted and/or prohibited because of works proposed on or near the road.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1), (4) a (7) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

The Welsh Ministers, therefore, in exercise of the powers conferred upon them by section 14(1), (4) and (7) of the Road Traffic Regulation Act 1984(1), make this Order.

Enwi a chychwyn

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A477 (Cyffordd Mynegbost Nash, Sir Benfro) (Cyfyngiad a Gwaharddiad Traffig Dros Dro) 2025 a daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 6 Medi 2025.

Title and commencement

1. The title of this Order is the A477 Trunk Road (Nash Fingerpost Junction, Pembrokeshire) (Temporary Traffic Restriction & Prohibition) Order 2025 and this Order comes into force on 6 September 2025.

Dehongli

2. Yn y Gorchymyn hwn—
ystyr “cerbyd esempt” (“*exempted vehicle*”) yw—

Interpretation

2. In this Order—
“exempted vehicle” (“*cerbyd esempt*”) means—

(1) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26) ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd erthygl 2 o O.S. 1999/672 ac Atodlen 1 iddo, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32), mae'r swyddogaethau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

(1) 1984 c. 27; section 14 was substituted by the Road Traffic (Temporary Restrictions) Act 1991 (c. 26), section 1(1) and Schedule 1. By virtue of S.I. 1999/672, article 2 and Schedule 1, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c. 32), these functions are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.

- (a) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at y dibenion a ddisgrifir yn adran 87 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1);
- (b) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at ddibenion y llynges, y fyddin neu'r llu awyr ac sy'n cael ei yrru gan berson sydd am y tro yn ddarostyngedig i orchmynion aelod o luoedd arfog y Goron, sy'n aelod o'r lluoedd arbennig—
 - (i) ac sydd wedi ei hyfforddi i yrru ar gyflymderau uchel ac sy'n gweithredu wrth ymateb, neu wrth ymarfer ymateb, i argyfwng diogelwch gwladol; neu
 - (ii) at ddiben hyfforddi person i yrru cerbydau ar gyflymderau uchel;

ystyr “cyfnod y gwaith” (“*works period*”) yw'r cyfnod sy'n dechrau am 00:01 o'r gloch ar 6 Medi 2025 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr “y gefnffordd” (“*the trunk road*”) yw cefnffordd yr A477 Sanclêr i Ddoc Penfro;

ystyr “lluoedd arbennig” (“*special forces*”) yw'r unedau hynny o'r lluoedd arfog y mae Cyfarwyddwr y Lluoedd Arbennig yn gyfrifol am gynnal eu galluoedd neu sydd am y tro yn ddarostyngedig i reolaeth weithredol y Cyfarwyddwr hwnnw.

Cyfyngiad a gwaharddiad

3. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd modur yn gyflymach na 40 milltir yr awr ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn.

4. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd fel ei fod yn gwneud tro pedol o un gerbyttffordd i gerbyttffordd arall drwy'r bwlch yn llain ganol y gefnffordd a bennir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn.

Cymhwyso

5.—(1) Ni fydd y cyfyngiad na'r gwaharddiad yn erthyglau 3 a 4 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

(2) Nid yw unrhyw derfyn cyflymder a osodir gan y Gorchymyn hwn yn gymwys i gerbyd esempt.

(1) Diwygiwyd adran 87 gan baragraff 55 o Atodlen 1 i Ddeddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 (p. 21), paragraff 42 o Atodlen 4 i Ddeddf Troseddu Cyfundrefnol Difrifol a'r Heddlu 2005 (p. 15), paragraff 29(2) o Atodlen 8 i Ddeddf Troseddu a'r Llysoedd 2013 (p. 22), ac adran 50(4) a (5) o Ddeddf Dadreoleiddio 2015 (p. 20).

- (a) any vehicle being used for the purposes described in section 87 of the Road Traffic Regulation Act 1984(1);
- (b) any vehicle being used for naval, military or air force purposes and being driven by a person for the time being subject to the orders of a member of the armed forces of the Crown, who is a member of the special forces—
 - (i) in response, or for practice in responding, to a national security emergency by a person who has been trained in driving at high speeds; or
 - (ii) for the purpose of training a person in driving vehicles at high speeds;

“special forces” (“*lluoedd arbennig*”) means those units of the armed forces the maintenance of whose capabilities is the responsibility of the Director of Special Forces or which are for the time being subject to the operational command of that Director;

“the trunk road” (“*y gefnffordd*”) means the A477 St Clears to Pembroke Dock trunk road;

“works period” (“*cyfnod y gwaith*”) means the period commencing at 00:01 hours on 6 September 2025 and ending when the temporary traffic signs are permanently removed.

Restriction and prohibition

3. No person may, during the works period, drive any motor vehicle at a speed exceeding 40 miles per hour on the length of the trunk road specified in Schedule 1 to this Order.

4. No person may, during the works period, drive any vehicle so as to make a U-turn from one carriageway to another through the gap in the central reservation of the trunk road specified in Schedule 2 to this Order.

Application

5.—(1) The restriction and prohibition in articles 3 and 4 apply only during such times and to such extent as indicated by traffic signs.

(2) No speed limit imposed by this Order applies to an exempted vehicle.

(1) Section 87 was amended by the Fire and Rescue Services Act 2004 (c. 21), Schedule 1, paragraph 55, the Serious Organised Crime and Police Act 2005 (c. 15), Schedule 4, paragraph 42, the Crime and Courts Act 2013 (c. 22), Schedule 8, paragraph 29(2) and the Deregulation Act 2015 (c. 20), section 50(4) and (5).

Atal dros dro

6. Mae unrhyw ddarpariaethau statudol sy'n cyfyngu ar gyflymder cerbydau ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn wedi eu hatal dros dro ar yr adegau hynny pan fo'r cyfyngiad a bennir yn erthygl 3 yn weithredol.

Cyfnod para'r Gorchymyn hwn

7. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd ar ran Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafnidiaeth a Gogledd Cymru, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig

29 Awst 2025

Nicci Hunter
Arweinydd y Tîm Busnes
Llywodraeth Cymru

Suspension

6. Any statutory provisions restricting the speed of vehicles on the length of the trunk road specified in Schedule 1 to this Order are suspended during such times as the restriction specified in article 3 is in operation.

Duration of this Order

7. The maximum duration of this Order is 18 months.

Signed on behalf of the Cabinet Secretary for Transport and North Wales, one of the Welsh Ministers.

Dated

29 August 2025

Nicci Hunter
Business Team Leader
Welsh Government

ATODLEN 1

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 57 o fetrau i'r gorllewin o ganol ei chyffordd â'r lôn sy'n arwain at Lower Nash hyd at bwynt 416 o fetrau i'r dwyrain o ganol ei chyffordd â ffordd yr U6357 sy'n arwain at Upper Nash, Sir Benfro.

ATODLEN 2

Y bwlch yn y llain ganol gyferbyn â chyffordd y gefnffordd â ffordd sirol Dosbarth 1 yr A4075 i Benfro, Sir Benfro.

SCHEDULE 1

The length of the trunk road that extends from a point 57 metres west of the centre of its junction with the lane leading to Lower Nash to a point 416 metres east of the centre of its junction with the U6357 road leading to Upper Nash, Pembrokeshire.

SCHEDULE 2

The gap in the central reservation situated opposite the junction of the trunk road with the Class 1 A4075 county road to Pembroke, Pembrokeshire.